| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **31 GORFFENNAF, 2008** |
| **TEITL** | **CYNLLUN TAIR MLYNEDD Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Ceisio cymeradwyaeth terfynol o'r Cynllun** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo fersiwn derfynol o'r Cynllun** |
| **AWDUR** | **Geraint George, Pennaeth Polisi a Pherfformiad** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar lunio Cynllun Strategol 3 Mlynedd a fyddai yn:-

    - Cynnig ffocws clir a chydlynol i waith y Cyngor
    - Sefydlu gorwel cynllunio tymor hwy i gynlluniau'r Cyngor - "torri i fewn" am y tro cyntaf i'r cylch cynllunio blynyddol
    - Canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau – sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r sir a'i phobl
    - Cynnig ffocws ar gyflawni ac edrych ymlaen hyd yn oed ar adeg cyllidol anodd

2. Bu gwaith manwl a thrylwyr iawn ar lunio'r cynllun gan gynnwys mewnbwn aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor ac, erbyn hyn, rydym wedi cyrraedd diwedd y daith o ran ei baratoi ac yn dechrau ar y gwaith pwysicach o wireddu'r uchelgais sydd ynddo.

3. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 28 Chwefror, 2008, cymeradwywyd drafft o'r cynllun i bwrpas ymgynghori arno. Roedd y rhaglen ymgynghori yn cynnwys amryw o gamau yn cynnwys cynnal grwpiau ffocws o'r cyhoedd a hefyd o aelodau o'r cyngor, ymgynghoriad ffurfiol gyda'n partneriaid a gweithdai mewnol pellach a fu'n rhoi sylw, fesul amcan i'r prif sylwadau a gafodd eu derbyn. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd briffio diweddar i Fwrdd y Cyngor, y Grwp Busnes a'r aelodau newydd.

**Y CYNLLUN TERFYNOL**

4. Mae'r cynllun terfynol ynghlwm er bod rhai man-newidiadau pellach i'w gwneud cyn iddo gael ei argraffu'n derfynol.

5. Ar fater cost yr ymrwymiadau yn y cynllun, bydd y Cyngor yn ymwybodol bod y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2008/09 wedi cynnwys swm o £300,000 o arian refeniw parhaol i ariannu unrhyw ymrwymiadau newydd sydd yn codi o’r cynllun. Mae gwaith y Tim Rheoli yn herio a gwirio unrhyw ddefnydd arfaethedig o’r arian hwnnw yn parhau. Felly, bwriedir adrodd yn ôl i Fwrdd y Cyngor dros y misoedd nesaf gydag argymhellion y Tim Rheoli cyn rhyddhau unrhyw adnoddau.

**ARGYMHELLIAD**

6. Gwahoddir y Cyngor i:-
   a. gymeradwyo’r fersiwn terfynol o’r cynllun
   b. fy awdurdodi i gwblhau unrhyw fan newidiadau munud olaf i’r cynllun cyn ei argraffu